UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Cynllun Strategol 2016-2020: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Gorffennaf 2016

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

## Cynllun Strategol 2016-2020: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn cynrychioli tiwtoriaid Cymraeg i oedolion mewn sawl sector.

Yn gyntaf, mae'n rhaid nodi ein siom gyda chyfnod ymgynghori sydd yn llawer rhy fyr. Mewn gwirionedd wythnos yw hyd y cyfnod ymgynghori ac mae'r amseru'n eithriadol o wael. Mae hi bellach yn ddiwedd y tymor ar nifer o diwtoriaid a dysgwyr a chanran uchel heb weld y ddogfen hyd nawr. Wrth ymgynghori mae angen sicrhau llais amrediad eang o'r rhai sydd â diddordeb yn y maes o gofio, hefyd, eich bod yn ymgynghori ar strategaeth cyfnod sylweddol 2016-2020 .

Nodwn fod gwahoddiad i ymgynghoriad ar 'Survey Monkey' a cheisiwn ymateb yn unol â'r cwestiynau a osodir ar yr arolwg:

**A1: A ydych yn cytuno gydag Amcan Strategol 1: Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf?**

Rydym yn croesawu'r bwriad i ddatblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas fydd yn gwneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod yr ystod eang o ddysgwyr yn cael eu hystyried boed yn rhai sydd yn dysgu mewn dosbarthiadau neu yn eu hamser eu hunain. Dylai hefyd sicrhau bod unrhyw ddefnydd o dechnoleg newydd yn cefnogi dysgu tiwtoriaid yn hytrach na chymryd lle'r dysgu wyneb yn wyneb gydag addysgwyr profiadol. Gall y dechnoleg ddiweddaraf hefyd fod o fudd i sicrhau mynediad i adnoddau i ddysgwyr sydd ag anableddau.

**A2: A ydych yn cytuno gydag Amcan Strategol 2: Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus?**

Unwaith eto, rydym yn croesawu cynlluniau arloesol er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r amcan strategol yn cyfeirio at weithwyr a rhieni a chredwn fod angen ymgynghori'n benodol gyda'r gweithwyr a'r rhieni hyn, sydd eisoes yn dysgu'r Gymraeg, er mwyn deall eu hanghenion.

**A3: A ydych yn cytuno gydag Amcan Strategol 3: Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth?**

Rydym yn gresynu bod dyddiad cau'r ymgynghoriad yn digwydd gyda nifer o diwtoriaid yn parhau'n ansicr o drefniadau'r flwyddyn academaidd nesaf. Hyd yn hyn, mae'n ymddangos bod tiwtoriaid wedi cael eu hystyried yn ymylol i'r drafodaeth ar 'resymoli darparwyr' ac mae hyn wedi cael effaith ar forâl a lles tiwtoriaid boed yn gweithio i sefydliadau addysg uwch, pellach neu i'r awdurdodau lleol. Rydym yn croesawu'r datganiad mai 'tiwtoriaid yw conglfaen gwasanaeth y Ganolfan i ddysgwyr' a'r angen i gydnabod 'rôl tiwtor fel opsiwn gyrfa cydnabyddedig'. Wrth ystyried y tiwtoriaid mae angen deall cyfraniadau'r amrywiaeth o fathau o gytundebau gan gynnwys tiwtoriaid achlysurol. Mae angen hefyd i sicrhau strwythur gyrfa gyda chydnabyddiaeth ac amodau gwaith teilwng.

**A4: A ydych yn cytuno gydag Amcan Strategol 4: Codi proffil y maes a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu'r Gymraeg?**

Mae denu dysgwyr yn allweddol ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd marchnata a chyfathrebu clir. Rhaid sicrhau bod cyrsiau ar gael, yn hygyrch a bod costau'r cyrsiau a'r adnoddau cysylltiedig o fewn cyrraedd. Dylai dysgwyr gael gwarant y bydd cwrs y mae ef/hi yn ei mynychu yn cael eu cynnal hyd ddiwedd y gyfres gan adlewyrchu anghenion bob myfyriwr. O ran "datblygu safle rhyngweithiol pwerus" bydd angen sicrhau diogelwch y defnyddiwr wrth gael mynediad at y gefnogaeth a'r adnoddau.


01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru

**A5: A ydych yn cytuno gydag Amcan Strategol 5: Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi'r gwasanaeth?**

Mae'r dyheadau i weithredu'n llwyddiannus i'w groesawu ac rydym yn nodi'r angen i ddysgwyr, tiwtoriaid a darparwyr ymwneud â'r Ganolfan ac i feithrin perthynas gyda chanolfannau mewn gwledydd eraill. Wrth gywain barn dysgwyr, tiwtoriaid a darparwyr credwn fod angen, hefyd, ystyried barn y sawl sydd wedi gadael y maes a deall y rhesymau am hynny.

**A6: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y ddogfen?**

Noder ein sylwadau cychwynnol am hyd ac amseriad yr ymgynghoriad.

Wrth ystyried llywodraethiant Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol rydym yn awyddus i ddeall beth fydd canran y cyllid fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer hyn.

Wrth reswm, prif amcan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yw 'denu mwy o bobol i ddysgu'r Gymraeg'. O ystyried deisyfiadau Llywodraeth Cymru credwn fod angen i'r amcan gael lle canolog yn y strategaeth.

**A7: Ydych chi yn Ddysgwyr, Rhanddeiliad, Darparwr, Cyhoedd?**

Rydym yn ymateb fel corff sy'n cynrychioli tiwtoriaid.

Hyderwn y byddwch yn ystyried y sylwadau uchod fel rhan o'r ymgynghoriad ar Gynllun Strategol, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

**UCAC**
**Gorffennaf 2016**

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru